**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 19 Chwefror 2024 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 5 Mawrth 2024 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 11 Mawrth 2024 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn
Arweinydd y Cyngor

**PWNC - Ymrwymo arian o gyllideb 'Lluosi' Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG**

**PENDERFYNIAD**

1. Ymrwymo £89,107 yn ychwanegol i'r cynllun *Helpu Pobl Gwynedd Gyflawni Potensial* gan Gyngor Gwynedd o'r gyllideb Lluosi yn nyraniad Gwynedd o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DG

2. Ymrwymo £152,563 o'r gyllideb Lluosi yn nyraniad Gwynedd o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DG i'r cynllun *Ymgyrch Rhifedd Trigolion Tai Cymdeithasol* gan Adra (Tai) Cyf.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig.

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD**
**ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod Cabinet: | Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn<br>Arweinydd y Cyngor |
| Enw a theitl awdur yr adroddiad: | Siwan Lisa Evans<br>Rheolwr Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd |
| Dyddiad y cymerwyd y penderfyniad : | 19 Chwefror 2024 |
| Llofnod yr Aelod Cabinet : | |

**PWNC: Ymrwymo arian o gyllideb 'Lluosi' Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG**

**Argymhellion ar gyfer y Penderfyniad:**

3. Ymrwymo £89,107 yn ychwanegol i'r cynllun *Helpu Pobl Gwynedd Gyflawni Potensial* gan Gyngor Gwynedd o'r gyllideb Lluosi yn nyraniad Gwynedd o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DG
4. Ymrwymo £152,563 o'r gyllideb Lluosi yn nyraniad Gwynedd o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DG i'r cynllun *Ymgyrch Rhifedd Trigolion Tai Cymdeithasol* gan Adra (Tai) Cyf.

**Rhesymau dros yr angen am y Penderfyniad:**

Cytunodd Cabinet 24 Ionawr 2023 (Eitem 6) i drefn ar gyfer ymrwymo arian o ddyraniad Gwynedd o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DG.

Sefydlwyd Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd i ymrwymo'r arian, gyda'u hargymhellion i'w cadarnhau drwy law Taflen Penderfyniad Aelod Cabinet gan yr Arweinydd (neu'r Cabinet pe ddymunir hynny gan y Panel).

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad:**

Mae Lluosi (Multiply) yn is-thema o fewn Blaenoriaeth Buddsoddi 'Pobl a Sgiliau' yng Nghronfa Ffyniant Gyffredin y DG. Bwriad Lluosi yw cefnogi oedolion i wella eu sgiliau rhifedd. Lluosi yw'r unig ran o'r Gronfa gyda chyllideb sydd wedi ei gwarchod - mae **£2,942,620** wedi ei glustnodi ar gyfer Lluosi o fewn dyraniad Gwynedd o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DG.

Mae **£1,547,429** o'r arian ar gyfer Lluosi eisoes wedi ei ymrwymo i gefnogi gweithgaredd yn y maes gan dri cynllun. Gweler papurau Cabinet 20 Gorffennaf 2023 (Eitem 5) a Thaflen Penderfyniad Aelod Unigol o Gabinet Cyngor Gwynedd (30 Ionawr 2024)

Mae **£1,395,191** o'r arian Lluosi yn nyraniad Gwynedd o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DG yn weddill.

Derbyniwyd dau gais o'r newydd am arian i ddarparu gweithgareddau sy'n gymwys i dderbyn arian Lluosi:

i. Cais am £89,107 yn ychwanegol i'r cynllun *Helpu Pobl Gwynedd Gyflawni Potensial* gan Gyngor Gwynedd
ii. Cais am £152,563 i'r cynllun *Ymgyrch Rhifedd Trigolion Tai Cymdeithasol* gan Adra Cyf.

Mae Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd wedi argymell ymrwymo cyfanswm o £241,670 o'r arian Lluosi sydd yn weddill yn nyraniad Gwynedd o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DG i'r cynlluniau uchod.

Mae'r Daflen Penderfyniad yma yn adlewyrchu argymhellion y Panel.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau:**

Dim

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad:**

Prif Swyddog Cyllid:

*"Mae amser cyfyngedig i ddefnyddio'r ffynhonnell arian yma, a gan fod y cynlluniau yn gymwys ar ei gyfer, rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir."*

Swyddog Monitro:

*"Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."*

Aelod(au) Lleol:

Ddim yn fater lleol